A mobile testing unit will be visiting the Penderry and Mynyddbach wards in Swansea in the coming days, to offer a convenient drop-in testing option for people with either the 'classic' signs of coronavirus or other symptoms they may feel are unusual for them or their child.

These may include flu-like symptoms, including any or all of:

- myalgia (muscle ache or pain);
- excessive tiredness;
- persistent headache;
- runny nose or blocked nose (unless this is a known hay fever symptom for the individual);
- persistent sneezing;
- sore throat and/or hoarseness, shortness of breath or wheezing;

Testing will also be open to anyone generally feeling unwell who has been in contact with a known COVID-19 case, or anyone with new or changed symptoms following a previous negative test.

A booking will not be needed, people can simply turn up and be tested if they have any of the above or the three 'classic' coronavirus symptoms:

- Fever
- a new continuous cough
- or a loss/change of taste and smell

Following the test, people will be instructed how to register their results.

The Mobile Testing Unit will be located at North Penlan Community Centre and Clase Community Centre from 15 April to 22 April and will offer 'drop-in' testing from 9am-7pm.

The move is part of an effort to drive down cases as much as possible in our communities, helping to allow restrictions in Wales to ease further.

@Swanseabay.nhs is now offering testing for the expanded range of symptoms across its testing facilities, although booking is required at the other venues. This can be done at: https://www.gov.uk/get-coronavirus-test

Bydd uned brofi symudol yn ymweld â wardiau Penderry a Mynyddbach yn Abertawe yn ystod y diwrnodau nesaf, i gynnig opsiwn galw heibio cyfleus i gael prawf ar gyfer pobl sydd naill ai ag arwyddion 'clasurol' coronafeirws neu symptomau eraill y byddan nhw'n teimlo o bosib eu bod nhw'n anghyffredin iddyn nhw neu eu plentyn.

Gall y rhain gynnwys symptomau tebyg i'r ffliw, gan gynnwys unrhyw rai neu'r cyfan o'r canlynol:

- myalgia (cyhyrau'n gwynegu neu'n boenus);
- blinder eithafol;
- pen tost parhaus;
- trwyn yn rhedeg neu'n llawn (oni bai bod hynny'n symptom clefyd y gwair cyfarwydd i'r unigolyn);
- tisian yn barhaus;
- llwnc tost a/neu lais crug, diffyg anadl neu frest yn gwichian wrth anadlu;

Bydd y profion ar agor hefyd i unrhyw un sy'n teimlo'n gyffredinol anhwylus ac a fu mewn cysylltiad ag achos hysbys o COVID-19, neu unrhyw un sydd â symptomau newydd neu wahanol ar ôl cael prawf negyddol yn flaenorol.

Ni fydd angen cadw lle, gall pobl alw heibio a chael eu profi os oes ganddyn nhw unrhyw rai o'r symptomau uchod neu'r tri symptom 'clasurol' ar gyfer coronafeirws:

- twymyn
- peswch newydd parhaus
- neu golli/newid yn eu gallu i flasu ac arogli

Ar ôl cael y prawf, bydd pobl yn cael cyfarwyddyd ynghylch sut mae cofrestru eu canlyniadau.

Bydd yr Uned Brofi Symudol yng Nghanolfan Gymunedol Gogledd Penlan a Chanolfan Gymunedol Clas rhwng 15 Ebrill a 22 Ebrilla bydd yn cynnig profion 'galw heibio' o 9am-7pm.

	Mae'r symudiad yma'n rhan o ymdrech i ostwng nifer yr achosion gymaint â phosibl yn ein cymunedau, er mwyn helpu i ganiatáu llacio pellach ar y cyfyngiadau yng Nghymru. Mae @BaeAbertaweGIG yn awr yn cynnig profion ar gyfer yr ystod ehangach o symptomau ar draws ei gyfleusterau profi, er bod rhaid cadw lle yn y lleoliadau eraill. Mae modd gwneud hynny yn: https://www.gov.uk/get-coronavirus-test